

## NICHOLL, JOHN (1797 - 1853)

**Enw:** John Nicholl  
**Dyddiad geni:** 1797  
**Dyddiad marw:** 1853  
**Priod:** Jane Harriet Nicholl (née Mansel Talbot)  
**Plentyn:** John Cole Nicholl  
**Rhiant:** Judy Nicholl (née Birt)  
**Rhiant:** John Nicholl  
**Rhyw:** Gwryw  
**Maes gweithgaredd:** Cyfraith; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil  
**Awdur:** Henry John Randall

Ganwyd 21 Awst 1797, unig fab **Syr John Nicholl**. Cafodd ei addysg yn Ysgol Westminster ac yng Ngholeg Eglwys Crist, Rhydychen lle y cafodd ysgoloriaeth yn 1816. Graddiodd yn y dosbarth blaenaf yn y clasuron ac, fel ei dad, llwyddodd i gael gradd D.C.L. yn 1825 a'i ethol yn 'Advocate' yn Doctors' Commons; galwesid yn fargyfreithiwr, o Lincoln's Inn, yn 1824. Etholwyd ef, Rhagfyr 1832, yn aelod dros Gaerdydd yn y Senedd ddiwygiedig gyntaf ar ôl pasio'r 'Reform Act,' a chadwodd y sedd hyd 1852. Daliodd amryw swyddi. Bu'n Arglwydd y Trysorlys am ychydig fisoedd yn 1835, yn 'Master of the Faculties,' ac yn farnwr llys ewyllysiau archesgobaeth Caergaint o 1838 hyd 1841; dewiswyd ef yn 'Judge Advocate-General' ym mis Medi 1841, pryd y daeth yn aelod o'r Cyfrin Gyngor; yr oedd yn 'Ecclesiastical Commissioner' a daeth yn aelod o'r Bwrdd Masnach ym mis Ionawr 1846. Yn ei sir enedigol daeth yn ddirprwy-raglaw a chafodd ei ddewis yn gadeirydd sesiwn chwarter Morgannwg. Priododd, 14 Rhagfyr 1821, Jane Harriet, ail ferch **Thomas Mansel Talbot**, Margam. Bu iddo saith o blant, a dilynwyd ef yn y stad gan ei fab hynaf, John Cole Nicholl 1823-1894. Bu farw 27 Ionawr 1853, yn Rhufain. Y mae stad Merthyr Mawr yn parhau ym meddiant disgynnydd uniongyrchol ohono.

### Awdur

**Henry John Randall**, (1877 - 1964)

### Ffynonellau

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895*(Brecknock 1895)

G. T. Clark, *Limbus Patrum Morganiae et Glamorganiae* (1886)

gwybodaeth gan Mr. R. I. Nicholl

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: John Iltud Nicholl

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6240740

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Randall, H. J., (1953). NICHOLL, JOHN (1797 - 1853). *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-NICH-JOH-1797>

Clipwrdd

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government